

Y stad gyfan

“...y mae pob peth yn eiddo i chwi.” (adn. 21)

Beth am ddarllen 1 Corinthiaid 3:18–23 ac yna myfyrio

Dyma destun addas i ddwyn ein myfyrdodau i ben. Os oes unrhyw adnod yn y Beibl sy'n swnio'n debyg i ewyllys olaf, dyma honno! Mae Iesu wedi etifeddu stad ei Dad i gyd. Ond dydi o ddim yn cadw dim iddo'i Hun. Mae bob amser yn ei rannu â ni!

Yn ôl yr esboniwr, Matthew Henry, “Pan adawodd Iesu ein byd, gwnaeth ei ewyllys olaf. Gadawodd ei enaid i'w Dad, Ei gorff i Joseff o Arimathea, disgynnodd ei ddillad i'r milwyr, a rhoddodd ei fam yng ngofal Ioan, y disgybl annwyl.” O ran eiddo materol, roedd ei etifeddiaeth yn ddibwys, ond, fel mae Ian Macpherson yn ein hatgoffa: “Gadawodd y bydysawd cyfan i'r rhai sy'n eiddo iddo.” Mae pob gweinidogaeth sy'n cyhoeddi Crist yn ffyddlon yn eiddo i ni. Mae pob profiad dynol yn eiddo i ni – ni piau'r profiadau, nid y nhw piau ni! Yng Nghrist, ni piau marwolaeth hyd yn oed; nid marwolaeth piau ni! Mae'r dyfodol yn eiddo i ni hefyd, er na wyddon beth sydd o'n blaenau. Ac mae'r presennol yn eiddo i ni hefyd. Mae'r rhodd o fywyd heddiw sy'n eich galluogi i ddarllen y nodiadau hyn yn rhywbeth i ryfeddu ato ac i'w anwylo, a chyn belled ag mae hynny'n bosibl, i'w fwynhau. Does dim ond un peth nad ydy o'n eiddo i ni – ni ein hunain. Unwaith y byddwn wedi ein rhoi ein hunain i Iesu Grist, yna rydyn ni'n perthyn iddo – am byth. Dydyn ni bellach ddim yn eiddo i ni ein hunain; ei eiddo ef ydyn ni. Yn ein tröedigaeth, rydyn ni'n rhoi'r gorau i'r ychydig sy'n eiddo i ni – ni ein hunain – ac, wele, mae popeth gennym!

Boed i'r gair olaf fod gan y merthyr o Gristion cyfoes, Jim Elliot: “Nid ffŵl mo'r sawl sy'n rhoi'r gorau i'r hyn na all ei gadw er mwyn ennill yr hyn na all ei gollu.” Wrth fod yn eiddo ar ddim, rydyn ni'n eiddo ar bopeth; heb yr un geiniog, rydyn ni'n berchen ar y byd. Haleliwia!

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Salm 37:11; Math. 5:1–16; Rhuf. 4:13–18; 1 Cor. 15:20–28; Gal. 3:26–29

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam mae'r addfwyn yn cael eu bendithio?
2. I beth roedd Abraham, tad pob un sy'n credu, yn etifedd?

Gweddi

Fy Nhad a'm Duw, wedi f'amgylchynu â'r holl gyfoeth rwyd ti wedi ei adael i mi, wna i byth gwyno eto fy mod yn brin o unrhyw beth. Mae popeth gennyf ynot ti. Popeth! Pob anrhydedd a gogoniant i'th enw di–ail di am byth. Amen.